OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2017 Rhif 724 (Cy. 174)

2017 No. 724 (W. 174)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

AGRICULTURE, WALES

Rheoliadau Llaeth Ysgol (Cymru) 2017

The School Milk (Wales) Regulations 2017

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diddymu ac yn disodli Rheoliadau Llaeth Ysgol (Cymru) 2008 ("Rheoliadau 2008") (fel y'u diwygiwyd) yn sgil newidiadau yng nghyfraith yr UE. Mae rheoliad 10 o'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer dirymu Rheoliadau 2008 a'r darpariaethau eraill sydd wedi diwygio Rheoliadau 2008.

Mae Rheoliad (EU) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 17 Rhagfyr 2013 sy'n sefydlu cyd-drefniadaeth ar gyfer y marchnadoedd mewn cynhyrchion amaethyddol yn cael ei ddiwygio gan Reoliad (EU) 2016/791 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 11 Mai 2016 sy'n diwygio Rheoliadau (EU) Rhif 1308/2013 ac (EU) Rhif 1306/2013 o ran y cynllun cymorth ar gyfer cyflenwi ffrwythau a llysiau a llaeth mewn sefydliadau addysgol.

Offerynnau newydd yr UE sy'n berthnasol drwy ychwanegu at Reoliad (EU) Rhif 1308/2013 yn y cyd-destun hwn yw Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2017/39 dyddiedig 3 Tachwedd 2016 a Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2017/40 dyddiedig 3 Tachwedd 2016.

Mae'r gyfraith UE newydd yn delio â'r un pwnc â'r gyfraith UE y mae'n ei dirymu ac yn ei disodli, hynny yw, y rheolau sy'n llywodraethu'r ddarpariaeth o gymorth Undeb ar gyfer llaeth a chynhyrchion eraill mewn sefydliadau addysgol.

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations repeal and replace the School Milk (Wales) Regulations 2008 ("the 2008 Regulations") (as amended) in light of changes in EU law. Regulation 10 of these Regulations provides for the revocation of the 2008 Regulations and the other provisions which have amended the 2008 Regulations.

Regulation (EU) No 1308/2013 of the European Parliament and of the Council of 17 December 2013 establishing a common organisation of the markets in agricultural products is being amended by Regulation (EU) 2016/791 of the European Parliament and of the Council of 11 May 2016 amending Regulations (EU) No 1308/2013 and (EU) No 1306/2013 as regards the aid scheme for the supply of fruit and vegetables and milk in educational establishments.

The new EU instruments which are relevant in supplementing Regulation (EU) No 1308/2013 in this context are Commission Implementing Regulation (EU) 2017/39 of 3 November 2016 and Commission Delegated Regulation (EU) 2017/40 of 3 November 2016.

The new EU law deals with the same subject matter as the EU law which it revokes and replaces i.e. the rules governing the provision of Union aid for milk and other products in educational establishments.

Caniateir taliadau cymorth gwladol gan Erthygl 23a(6) o Reoliad (EU) Rhif 1308/2013 (fel y'i diwygiwyd). Mae rheoliad 3 o'r Rheoliadau hyn yn darparu y gall Gweinidogion Cymru dalu'r cymorth gwladol hwn i geiswyr sy'n cael cymorth Undeb ac yn cadarnhau y caiff Gweinidogion Cymru bennu'r math neu'r dosbarth o sefydliad addysgol neu gynhyrchion llaeth y caniateir talu cymorth gwladol mewn perthynas â hwy. Mae hefyd yn darparu bod unrhyw daliad cymorth gwladol yn ddarostyngedig i'r un rheolau, gofynion ac amodau ag sy'n gymwys i gymorth Undeb.

National aid payments are permitted by Article 23a(6) of Regulation (EU) No 1308/2013 (as amended). Regulation 3 of these Regulations provides that the Welsh Ministers can pay this national aid to applicants in receipt of Union aid and confirms that the Welsh Ministers may determine the type or class of educational establishment or milk products in relation to which national aid may be paid. It also provides that any national aid payment is subject to the same rules, requirements and conditions as apply to Union aid.

Mae rheoliad 4 yn darparu, pan fo cymorth gwladol yn cael ei roi mewn cysylltiad â chyflenwi llaeth cyflawn neu laeth hanner sgim, â chyflas neu heb gyflas, i ddisgyblion sy'n cael addysg mewn sefydliad addysgol cymhwysol ac sydd yn y flwyddyn derbyn, blwyddyn 1 neu flwyddyn 2, y caiff cyfanswm y cymorth hwnnw fod yn swm sy'n ddigonol at ddibenion talu unrhyw gost a fyddai fel arall yn gorfod cael ei thalu gan y disgyblion hynny neu gan eu rhieni neu eu gwarcheidwaid o dan amgylchiadau pan na fo cymorth Cymunedol yn talu'n llawn am gost cyflenwi'r cynnyrch hwnnw.

Regulation 4 provides that where national aid is granted in connection with the supply of flavoured or unflavoured, whole or semi skimmed milk to pupils receiving education at a qualifying educational establishment and are in reception, year 1 or year 2, that aid may amount to a sum sufficient for the purposes of defraying any cost that would otherwise have to be borne by those pupils or their parents or guardians in circumstances where Community aid does not fully meet the cost of supplying that product.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn darparu ar gyfer cadw'n ôl neu adennill unrhyw gymorth Undeb neu unrhyw daliad gwladol, a wneir o dan reoliad 3 o'r Rheoliadau, nad yw ceisydd yn gymwys i'w gael neu pan fo'r ceisydd wedi torri unrhyw ymrwymiadau a roddwyd fel amod o'r cymorth Undeb hwnnw neu'r cymorth gwladol hwnnw (rheoliad 5). Mae rheoliad 6 yn darparu ar gyfer codi llog.

These Regulations also provide for the withholding or recovery of any Union aid or any national payment, made under regulation 3 of the Regulations, to which an applicant is not entitled or where the applicant is in breach of any commitments given as a condition of such Union aid or national aid (regulation 5). Regulation 6 provides for interest to be charged.

Mae'n ofynnol i Aelod-wladwriaethau ymgymryd â gwiriadau gweinyddol a gwiriadau yn y fan a'r lle o fangre'r ceisydd o dan Erthyglau 9 a 10 o Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2017/39. Mae rheoliadau 7 (pwerau mynediad) ac 8 (pwerau arolygu) yn helpu Gweinidogion Cymru (drwy bersonau awdurdodedig) i gydymffurfio â rhwymedigaethau'r UE i ymgymryd â gwiriadau yn y fan a'r lle effeithiol er mwyn sicrhau cydymffurfedd ac atal gwallau a thwyll.

Member states are required to undertake administrative checks and on-the-spot checks of applicants premises under Articles 9 and 10 of Commission Implementing Regulation (EU) 2017/39. Regulations 7 (powers of entry) and 8 (powers of inspection) help the Welsh Ministers (via authorised persons) to comply with EU obligations to undertake effective on-the-spot checks to ensure compliance and prevent error and fraud.

Mae rheoliad 9 yn diwygio Rheoliadau Cynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin nad ydynt yn rhai IACS (Apelau) (Cymru) 2004 o ganlyniad i'r newidiadau sy'n cael eu gwneud i gyfraith yr UE. O dan y Rheoliadau hynny gall Gweinidogion Cymru barhau i sefydlu gweithdrefn ar gyfer rhoi ystyriaeth bellach i benderfyniad cychwynnol a wneir o dan y Cynllun Llaeth Ysgol.

Regulation 9 amends the Common Agricultural Policy Non-IACS Support Schemes (Appeals) (Wales) Regulations 2004 in consequence of the changes being made to EU law. Under those Regulations the Welsh Ministers can continue to establish a procedure for the further consideration of an initial determination made under the School Milk Scheme.

2017 Rhif 724 (Cy. 174)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

Rheoliadau Llaeth Ysgol (Cymru) 2017

Gwnaed *2 Gorffennaf 2017*

Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru *7 Gorffennaf 2017*

Yn dod i rym *1 Awst 2017*

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin yr Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth at ddiben a grybwyllir yn yr adran honno ac mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei bod yn hwylus dehongli unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at offerynnau'r UE fel cyfeiriad at yr offerynnau hynny fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 a pharagraff 1A o Atodlen 2 iddi.

Cynhaliwyd ymgynghoriad fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**3**).

(**1**) O.S. 2010/2690.

(**2**) 1972 p. 68. Diwygiwyd adran 2(2) gan adran 27(1)(a) o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51) a chan adran 3(3) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p. 7) a Rhan 1 o'r Atodlen iddi. Mewnosodwyd paragraff 1A o Atodlen 2 gan adran 28 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006.

(**3**) OJ L 31, 1.2.2002, t. 1, ac nid oes diwygiadau perthnasol i Erthygl 9.

2017 No. 724 (W. 174)

AGRICULTURE, WALES

The School Milk (Wales) Regulations 2017

Made *2 July 2017*

Laid before the National Assembly for Wales *7 July 2017*

Coming into force *1 August 2017*

The Welsh Ministers are designated(**1**) for the purposes of section 2(2) of the European Communities Act 1972(**2**) in relation to the common agricultural policy of the European Union.

These Regulations make provision for a purpose mentioned in that section and it appears to the Welsh Ministers that it is expedient for any reference in these Regulations to EU instruments to be construed as a reference to those instruments as amended from time to time.

The Welsh Ministers make these Regulations in exercise of the powers conferred by section 2(2) of, and paragraph 1A of Schedule 2 to, the European Communities Act 1972.

There has been consultation as required by Article 9 of Regulation (EC) No 178/2002 of the European Parliament and of the Council laying down the general principles and requirements of food law, establishing the European Food Safety Authority and laying down procedures in matters of food safety(**3**).

(**1**) S.I. 2010/2690.

(**2**) 1972 c. 68. Section 2(2) was amended by section 27(1)(a) of the Legislative and Regulatory Reform Act 2006 (c. 51) and by section 3(3) of, and Part 1 of the Schedule to, the European Union (Amendment) Act 2008 (c. 7). Paragraph 1A of Schedule 2 was inserted by section 28 of the Legislative and Regulatory Reform Act 2006.

(**3**) OJ L 31, 1.2.2002, p. 1, to which there are no relevant amendments to Article 9.

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Llaeth Ysgol (Cymru) 2017 a deuant i rym ar 1 Awst 2017.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "blwyddyn 1" ("*year 1*") yw grŵp blwyddyn y bydd mwyafrif y plant, yn ystod y flwyddyn ysgol, yn cyrraedd 6 oed;

ystyr "blwyddyn 2" ("*year 2*") yw grŵp blwyddyn y bydd mwyafrif y plant, yn ystod y flwyddyn ysgol, yn cyrraedd 7 oed;

ystyr "blwyddyn derbyn" ("*reception*") yw grŵp blwyddyn y bydd mwyafrif y plant, yn ystod y flwyddyn ysgol, yn cyrraedd 5 oed;

ystyr "blwyddyn ysgol" ("*school year*"), mewn perthynas ag ysgol, yw'r cyfnod sy'n dechrau â'r tymor ysgol cyntaf i ddechrau ar ôl Gorffennaf ac sy'n dod i ben â dechrau'r tymor cyntaf o'r fath i ddechrau ar ôl y Gorffennaf canlynol;

ystyr "ceisydd" ("*applicant*") yw ceisydd am gymorth fel y'i disgrifir yn Erthygl 5 o Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn sydd wedi cael ei gymeradwyo yn unol ag Erthygl 6 o Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn;

ystyr "cost cyflenwi" ("*cost of supply*") mewn perthynas â chynhyrchion llaeth cymhwysol yw cost prynu cynhyrchion ac ychwanegu swm y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried yn rhesymol ei fod yn ddigonol at ddibenion talu'r gost o gaffael a gweinyddu'r cyflenwad o'r cynhyrchion llaeth hynny;

ystyr "y costau gweddilliol" ("*the residual costs*") yw'r costau cyflenwi, yr eir iddynt gan brynwr mewn cysylltiad â chyflenwi cynhyrchion llaeth cymhwysol i sefydliad addysgol cymhwysol, llai unrhyw gymorth Undeb a chymorth gwladol y caniateir eu rhoi mewn cysylltiad â'r cyflenwi hwnnw;

ystyr "cymorth gwladol" ("*national aid*") yw cymorth a roddir gan Weinidogion Cymru o dan y Rheoliadau hyn yn unol ag Erthyglau 23a(6) a 217 o Reoliad y Cyngor;

ystyr "cymorth Undeb" ("*Union aid*") yw cymorth Undeb a roddir yn unol ag Erthygl 23(1) o Reoliad y Cyngor ac yn unol â Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn a Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn;

ystyr "cynhyrchion llaeth cymhwysol" ("*qualifying milk products*") yw'r llaeth a'r cynhyrchion llaeth a restrir yn Erthygl 23(3)(b) a (4)(b) o Reoliad y Cyngor ac Atodiad V iddo;

Title, commencement and application

1.—(1) The title of these Regulations is the School Milk (Wales) Regulations 2017 and they come into force on 1 August 2017.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

Interpretation

2.—(1) In these Regulations—

"applicant" ("*ceisydd*") means an applicant for aid as described in Article 5 of the Commission Delegated Regulation that has been approved in accordance with Article 6 of the Commission Delegated Regulation;

"authorised person" ("*person awdurdodedig*") means any person authorised by the Welsh Ministers to act in matters arising under these Regulations or the European Regulations;

"Commission Delegated Regulation" ("*Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn*") means Commission Delegated Regulation (EU) 2017/40 of 3 November 2016 supplementing Regulation (EU) No 1308/2013 of the European Parliament and of the Council with regard to Union aid for the supply of fruit and vegetables, bananas and milk in educational establishments and amending Commission Delegated Regulation (EU) No 907/2014, as amended from time to time(**1**);

"Commission Implementing Regulation" ("*Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn*") means Commission Implementing Regulation (EU) 2017/39 of 3 November 2016 on rules of the application of Regulation (EU) No 1308/2013 of the European Parliament and of the Council with regard to Union aid for the supply of fruit and vegetables, bananas and milk in educational establishments, as amended from time to time(**2**);

"cost of supply" ("*cost cyflenwi*") in relation to qualifying milk products means the cost of purchase plus an amount which the Welsh Ministers reasonably considers to be sufficient for the purposes of defraying the cost of procuring and administering the supply of those milk products;

"Council Regulation" ("*Rheoliad y Cyngor*") means Regulation (EU) No 1308/2013 of the European Parliament and of the Council of 17 December 2013 establishing a common organisation of the markets in agricultural products and repealing Council Regulations (EEC) No 922/72, (EEC) No 234/79, (EC) No 1037/2001 and

(**1**) OJ L 5, 10.1.2017, p. 11.
(**2**) OJ L 5, 10.1.2017, p. 1.

ystyr "disgyblion cymwys" ("*eligible pupils*") yw disgyblion sy'n cael addysg mewn sefydliad addysgol cymhwysol ac sydd yn y flwyddyn derbyn, blwyddyn 1 neu flwyddyn 2;

ystyr "grŵp blwyddyn" ("*year group*") yw grŵp o blant mewn ysgol y bydd y mwyafrif ohonynt, mewn blwyddyn ysgol benodol, yn cyrraedd yr un oedran;

ystyr "person awdurdodedig" ("*authorised person*") yw unrhyw berson sydd wedi ei awdurdodi gan Weinidogion Cymru i weithredu mewn materion sy'n codi o dan y Rheoliadau hyn neu'r Rheoliadau Ewropeaidd;

ystyr "Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn" ("*Commission Delegated Regulation*") yw Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2017/40 dyddiedig 3 Tachwedd 2016 sy'n ychwanegu at Reoliad (EU) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran cymorth Undeb ar gyfer cyflenwi ffrwythau a llysiau, bananas a llaeth mewn sefydliadau addysgol ac sy'n diwygio Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) Rhif 907/2014, fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd(**1**);

ystyr "Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn" ("*Commission Implementing Regulation*") yw Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2017/39 dyddiedig 3 Tachwedd 2016 ynghylch rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (EU) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran cymorth Undeb ar gyfer cyflenwi ffrwythau a llysiau, bananas a llaeth mewn sefydliadau addysgol, fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd(**2**);

ystyr "Rheoliad Gweithredu Llorweddol" ("*Horizontal Implementing Regulation*") yw Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 809/2014 dyddiedig 17 Gorffennaf 2014 sy'n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (EU) Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran y system gweinyddu a rheoli integredig, mesurau datblygu gwledig a thrawsgydymffurfio, fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd(**3**);

ystyr "Rheoliad y Cyngor" ("*Council Regulation*") yw Rheoliad (EU) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 17 Rhagfyr 2013 sy'n sefydlu cyd-drefniadaeth ar gyfer y marchnadoedd mewn cynhyrchion amaethyddol ac yn diddymu Rheoliadau'r Cyngor (EEC) Rhif 922/72, (EEC) Rhif 234/79, (EC) Rhif 1037/2001 ac (EC) Rhif 1234/2007(**4**) fel y'u diwygiwyd gan Reoliad (EU) 2016/791 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 11

(**1**) OJ L 5, 10.1.2017, t. 11.
(**2**) OJ L 5, 10.1.2017, t. 1.
(**3**) OJ L 227, 31.7.2014, t. 69.
(**4**) OJ L 347, 20.12.2013, t. 671.

(EC) No 1234/2007(**1**) as amended by Regulation (EU) 2016/791 of the European Parliament and of the Council of 11 May 2016 amending Regulations (EU) No 1308/2013 (the Council Regulation) and (EU) No 1306/2013 as regards the aid scheme for the supply of fruit and vegetables, bananas and milk in educational establishments(**2**), and as amended from time to time;

"eligible pupils" ("*disgyblion cymwys*") means pupils receiving education at a qualifying educational establishment and are in reception, year 1 or year 2;

"European Regulations" ("*Rheoliadau Ewropeaidd*") means the—

(a) Council Regulation,

(b) Commission Delegated Regulation,

(c) Commission Implementing Regulation;

"Horizontal Implementing Regulation" ("*Rheoliad Gweithredu Llorweddol*") means Commission Implementing Regulation (EU) No 809/2014 of 17 July 2014 laying down rules for the application of Regulation (EU) No 1306/2013 of the European Parliament and of the Council with regard to the integrated administration and control system, rural development measures and cross compliance, as amended from time to time(**3**);

"national aid" ("*cymorth gwladol*") means aid granted by the Welsh Ministers under these Regulations pursuant to Articles 23a(6) and 217 of the Council Regulation;

"qualifying educational establishment" ("*sefydliad addysgol cymhwysol*") means an educational establishment referred to in Article 22 of the Council Regulation;

"qualifying milk products" ("*cynhyrchion llaeth cymhwysol*") means the milk and milk products listed in Article 23(3)(b) and (4)(b) of, and Annex V to the Council Regulation;

"reception" ("*blwyddyn derbyn*") means a year group in which the majority of children will, in the school year, attain the age of 5;

"the residual costs" ("*y costau gweddilliol*") means the cost of supply, incurred by a purchaser in connection with the supply of qualifying milk products to a qualifying educational establishment, less any Union aid and national aid that may be granted in respect of that supply;

"school year" ("*blwyddyn ysgol*") in relation to a school, means the period beginning with the first

(**1**) OJ L 347, 20.12.2013, p. 671.
(**2**) OJ L 135, 24.5.2016, p. 1.
(**3**) OJ L 227, 31.7.2014, p. 69.

Mai 2016 sy'n diwygio Rheoliadau (EU) Rhif 1308/2013 (Rheoliad y Cyngor) ac (EU) Rhif 1306/2013 o ran y cynllun cymorth ar gyfer cyflenwi ffrwythau a llysiau, bananas a llaeth mewn sefydliadau addysgol(**1**), ac fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd;

ystyr "Rheoliadau Ewropeaidd" ("*European Regulations*") yw—

(a) Rheoliad y Cyngor,

(b) Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn,

(c) Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn;

ystyr "sefydliad addysgol cymhwysol" ("*qualifying educational establishment*") yw sefydliad addysgol y cyfeirir ato yn Erthygl 22 o Reoliad y Cyngor.

(2) Ac eithrio pan fo'r cyd-destun yn mynnu fel arall, mae i ymadroddion eraill a ddefnyddir yn y Rheoliadau yr ystyr a roddir iddynt yn y Rheoliadau Ewropeaidd.

Rhoi cymorth gwladol

3.—(1) Pan fo ceisydd yn cael cymorth Undeb, caiff Gweinidogion Cymru dalu cymorth gwladol i'r ceisydd hwnnw yn ychwanegol at y cymorth Undeb hwnnw.

(2) At ddibenion paragraff (1), caiff Gweinidogion Cymru bennu'r math neu'r dosbarth o sefydliadau addysgol cymhwysol neu'r cynhyrchion llaeth cymhwysol y caniateir talu cymorth gwladol mewn perthynas â hwy, drwy gyfeirio at unrhyw set o amgylchiadau y mae Gweinidogion Cymru yn meddwl eu bod yn addas.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), mae'r darpariaethau penodedig a ganlyn yn gymwys mewn perthynas â chymorth gwladol fel pe bai'n gymorth Undeb—

(a) yn Rheoliad y Cyngor; Erthygl 22 (Grŵp Targed), Erthygl 23 (Cymorth ar gyfer cyflenwi ffrwythau a llysiau ysgol a llaeth ysgol, mesurau addysgol ategol a'r gost gysylltiedig) ac Atodiad V (cynhyrchion llaeth cymwys);

(b) yn Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn; Erthygl 4 (Cais am gymorth a gyflwynir gan geisydd am gymorth), Erthygl 5 (Talu'r cymorth); Erthygl 9 (Gwiriadau gweinyddol), Erthygl 10 (Gwiriadau yn y fan a'r lle) ac Erthygl 11 (Adennill taliadau nad oeddent yn ddyledus), ac

school term to begin after July and ending with the beginning of the first such term to begin after the following July;

"Union aid" ("*cymorth Undeb*") means Union aid granted pursuant to Article 23(1) of the Council Regulation and in accordance with the Commission Delegated Regulation and Commission Implementing Regulation;

"year 1" ("*blwyddyn 1*") means a year group in which the majority of children will, in the school year, attain the age of 6;

"year 2" ("*blwyddyn 2*") means a year group in which the majority of children will, in the school year, attain the age of 7;

"year group" ("*grŵp blwyddyn*") means a group of children at a school the majority of whom will, in a particular school year, attain the same age.

(2) Except where the context otherwise requires, other expressions used in the Regulations have the meaning they bear in the European Regulations.

Grant of national aid

3.—(1) Where an applicant is in receipt of Union aid, the Welsh Ministers may pay that applicant national aid in addition to that Union aid.

(2) For the purposes of paragraph (1) the Welsh Ministers may determine the type or class of qualifying educational establishments or qualifying milk products in relation to which national aid may be paid, by reference to any set of circumstances the Welsh Ministers think fit.

(3) Subject to paragraph (2), the following specified provisions apply in relation to national aid as if it were Union aid—

(a) of the Council Regulation; Article 22 (Target Group), Article 23 (Aid for the supply of school fruit and vegetables and of school milk, accompanying educational measures and related cost) and Annex V (eligible milk products);

(b) of the Commission Implementing Regulation; Article 4 (Aid application submitted by aid applicant), Article 5 (Payment of the aid); Article 9 (Administrative checks), Article 10 (On-the-spot checks) and Article 11 (Recovery of undue payments), and

(**1**) OJ L 135, 24.5.2016, t. 1.

(c) yn Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn; Erthygl 6 (Amodau ar gyfer cymeradwyo ceiswyr am gymorth) paragraffau (1) a (2) yn unig, Erthygl 7 (Atal dros dro a thynnu'n ôl gymeradwyaeth); ac Erthygl 11 (Dosbarthu cynhyrchion ar y cyd â phrydau ysgol rheolaidd) paragraff (b) o'r ail baragraff yn unig.

(c) of the Commission Delegated Regulation; Article 6 (Conditions for approval of aid applicants) paragraphs (1) and (2) only, Article 7 (Suspension and withdrawal of approval); and Article 11 (Distribution of products in conjunction with regular school meals) paragraph (b) of the second paragraph only.

Cymorth gwladol ychwanegol i ddisgyblion cymwys

4. Pan fo cymorth gwladol wedi ei roi mewn cysylltiad â chyflenwi cynnyrch llaeth cymhwysol sydd naill ai â chyflas neu hebddo, yn llaeth cyflawn neu'n llaeth hanner sgim, i ddisgyblion cymwys, caiff y swm a roddir felly fod yn swm digonol i dalu'r costau gweddilliol a fyddai fel arall yn cael eu talu gan y disgyblion hynny neu eu rhieni neu eu gwarcheidwaid mewn cysylltiad â'r cyflenwi hwnnw.

Additional national aid for eligible pupils

4. Where national aid is granted in connection with the supply of a qualifying milk product which is either flavoured or unflavoured, whole or semi skimmed milk, to eligible pupils, the amount so granted, may be an amount sufficient to defray the residual costs that would otherwise be borne by such pupils or their parents or guardians in respect of that supply.

Cadw cymorth Undeb neu gymorth gwladol yn ôl a'i adennill

5.—(1) Pan fo ceisydd wedi cael cymorth Undeb neu gymorth gwladol o dan reoliad 3 nad oedd y ceisydd yn gymwys i'w gael, neu pan fo'r ceisydd wedi torri unrhyw ymrwymiad a roddwyd gan y ceisydd fel amod o gymorth Undeb neu gymorth gwladol o'r fath o dan y rheoliad hwnnw, caiff Gweinidogion Cymru—

(a) cadw'r cyfan neu unrhyw ran o gymorth Undeb neu gymorth gwladol o'r fath yn ôl o dan reoliad 3 y gallent fod wedi ei roi fel arall; neu

(b) adennill ar gais y cyfan neu unrhyw ran o unrhyw gymorth Undeb neu gymorth gwladol o'r fath o dan reoliad 3 y maent eisoes wedi ei roi.

(2) Cyn cymryd camau o dan baragraff (1), rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) rhoi rhesymau ysgrifenedig i'r ceisydd dros y camau y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu eu cymryd;

(b) rhoi cyfle i'r ceisydd gyflwyno sylwadau ysgrifenedig o fewn unrhyw gyfnod amser y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei fod yn rhesymol; ac

(c) ystyried unrhyw sylwadau o'r fath.

(3) Mae unrhyw arian sy'n ddyledus i Weinidogion Cymru o dan neu yn rhinwedd y Rheoliadau hyn yn adenilladwy fel dyled.

Withholding and recovery of Union aid or national aid

5.—(1) Where an applicant has received Union aid or national aid under regulation 3 to which the applicant was not entitled, or where the applicant is in breach of any commitment given by the applicant as a condition of such Union aid or of national aid under that regulation, the Welsh Ministers may—.

(a) withhold the whole or any part of such Union aid or national aid under regulation 3 that they might otherwise have made; or

(b) recover on demand the whole or any part of any such Union aid or national aid under regulation 3 already made by them.

(2) Before taking action under paragraph (1), the Welsh Ministers must—

(a) give the applicant written reasons for the action the Welsh Ministers propose to take;

(b) afford the applicant the opportunity to make written representations within such time as the Welsh Ministers considers reasonable; and

(c) consider any such representations.

(3) Any money due to the Welsh Ministers under or by virtue of these Regulations is recoverable as a debt.

Llog

6. Caniateir codi llog mewn cysylltiad â phob diwrnod o'r cyfnod y cyfeirir ato yn Erthygl 7(2) o'r Rheoliad Gweithredu Llorweddol ac, at y diben hwn, y gyfradd llog sy'n gymwys ar unrhyw ddiwrnod yw un pwynt canran uwchlaw cyfradd sterling drimisol Llundain a gynigir rhwng banciau (LIBOR) ar y diwrnod gwaith cyntaf ym mhob mis calendr.

Interest

6. Interest may be charged in respect of each day of the period referred to in Article 7(2) of the Horizontal Implementing Regulation and for this purpose the rate of interest applicable on any day is one percentage point above the sterling three month London interbank offered rate (LIBOR) on the first working day of each calendar month.

Pwerau mynediad

7.—(1) Caiff person awdurdodedig arfer unrhyw un neu ragor o'r pwerau a bennir yn y rheoliad hwn ac yn rheoliad 8 at ddibenion gorfodi'r Rheoliadau hyn neu'r Rheoliadau Ewropeaidd.

(2) Caiff person awdurdodedig, drwy gyflwyno, os yw'n ofynnol iddo wneud hynny, ddogfen wedi ei dilysu'n briodol sy'n dangos awdurdod y person hwnnw, ar unrhyw adeg resymol fynd ar unrhyw dir neu i mewn i unrhyw fangre ac eithrio mangre sy'n cael ei defnyddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf fel annedd breifat.

(3) Nid yw paragraff (2) yn effeithio ar unrhyw hawl mynediad a roddir gan warant a ddyroddir yn unol â pharagraff (4).

(4) Caiff ynad heddwch, drwy warant wedi ei llofnodi, ganiatáu i berson awdurdodedig fynd ar unrhyw dir neu i mewn i unrhyw fangre, a hynny gan ddefnyddio grym rhesymol os oes angen, os yw'r ynad wedi ei fodloni, ar ôl cael gwybodaeth ysgrifenedig ar lw—

(a) bod sail resymol i berson awdurdodedig fynd ar y tir neu i mewn i'r fangre at y diben a grybwyllir ym mharagraff (1); a

(b) bod un o'r amodau ym mharagraff (5) wedi ei fodloni.

(5) Yr amodau yw—

(a) bod mynediad i'r tir neu'r fangre wedi ei wrthod, neu'n debygol o gael ei wrthod, ac—

(i) bod hysbysiad o'r bwriad i wneud cais am warant wedi ei gyflwyno i'r meddiannydd, neu

(ii) na chyflwynwyd hysbysiad o'r fath i'r meddiannydd oherwydd y byddai cyflwyno hysbysiad o'r fath yn tanseilio diben neu effeithiolrwydd y mynediad;

(b) bod angen mynediad ar frys; neu

(c) bod y fangre heb ei meddiannu neu fod y meddiannydd yn absennol dros dro.

(6) Mae gwarant yn ddilys am dri mis.

Powers of entry

7.—(1) An authorised person may exercise any of the powers specified in this regulation and regulation 8 for the purposes of enforcing these Regulations or the European Regulations.

(2) An authorised person, on producing, if so required, a duly authenticated document showing that person's authority, may at any reasonable hour enter any land or premises other than premises used wholly or mainly as a private dwelling.

(3) Paragraph (2) does not affect any right of entry conferred by a warrant issued in accordance with paragraph (4).

(4) A justice of the peace may by signed warrant permit an authorised person to enter any land or premises, if necessary by reasonable force, if the justice, sworn on information in writing, is satisfied that—

(a) there are reasonable grounds for an authorised person to enter the land or premises for the purpose mentioned in paragraph (1); and

(b) one of the conditions in paragraph (5) is met.

(5) The conditions are that—

(a) entry to the land or premises has been refused, or is likely to be refused, and—

(i) notice of the intention to apply for a warrant has been served on the occupier, or

(ii) no such notice has been served on the occupier because serving such a notice would interfere with the purpose or effectiveness of the entry;

(b) entry is required urgently; or

(c) the premises are unoccupied or the occupier is temporarily absent.

(6) A warrant is valid for three months.

(7) Caiff person awdurdodedig sy'n mynd ar unrhyw dir neu i mewn i unrhyw fangre yn rhinwedd y rheoliad hwn fynd â'r canlynol gydag ef—

(a) unrhyw gynrychiolydd o'r Comisiwn Ewropeaidd; a

(b) unrhyw bersonau eraill y mae'r person awdurdodedig yn ystyried eu bod yn angenrheidiol.

(8) Rhaid i berson awdurdodedig sy'n mynd i mewn i unrhyw fangre nad yw wedi ei meddiannu adael y fangre honno wedi ei diogelu yr un mor effeithiol ag yr oedd cyn iddo fynd i mewn iddi.

Pwerau arolygu etc.

8.—(1) Caiff person awdurdodedig sydd wedi mynd ar unrhyw dir neu i mewn i unrhyw fangre drwy arfer pŵer a roddir gan reoliad 7—

(a) cyflawni unrhyw ymholiadau, gwiriadau, archwiliadau, mesuriadau a phrofion;

(b) cymryd samplau;

(c) arolygu'r fangre gyfan neu unrhyw ran ohoni;

(d) gweld, arolygu, copïo ac argraffu unrhyw ddogfennau neu gofnodion (ar ba bynnag ffurf y'u cedwir) neu fynd ag unrhyw ddogfennau o'r fath oddi yno i'w gwneud yn bosibl eu copïo neu eu cadw fel tystiolaeth;

(e) gweld, arolygu a gwirio gweithrediad unrhyw gyfrifiadur ac unrhyw gyfarpar neu ddeunydd cysylltiedig sy'n cael ei ddefnyddio neu sydd wedi ei ddefnyddio mewn cysylltiad â'r dogfennau neu'r cofnodion;

(f) tynnu ffotograff o unrhyw beth yn y fangre neu ei recordio ar ffurf ddigidol;

(g) mynd ag unrhyw beth oddi yno y credir yn rhesymol ei fod yn dystiolaeth o unrhyw fethiant i gydymffurfio.

(2) Caiff person awdurdodedig sy'n mynd ar unrhyw dir neu i mewn i unrhyw fangre o dan bŵer o dan ddeddfwriaeth arall arfer unrhyw un neu ragor o'r pwerau a bennir yn y rheoliad hwn at ddibenion gorfodi'r Rheoliadau hyn.

(3) Mae paragraff (1) yn gymwys mewn perthynas â pherson y cyfeirir ato yn rheoliad 7(7)(b) pan fo'r person hwnnw yn gweithredu o dan gyfarwyddiadau person awdurdodedig, fel pe bai'r person hwnnw yn berson awdurdodedig.

(7) An authorised person entering any land or premises by virtue of this regulation may be accompanied by—

(a) any representative of the European Commission; and

(b) such other persons as the authorised person considers necessary.

(8) An authorised person who enters any unoccupied premises must leave them as effectively secured as they were before entry.

Powers of inspection etc.

8.—(1) An authorised person who has entered any land or premises in exercise of a power conferred by regulation 7 may—

(a) carry out any inquiries, checks, examinations, measurements and tests;

(b) take samples;

(c) inspect all or any part of the premises;

(d) have access to, inspect, copy and print any documents or records (in whatever form they are held) or remove such documents to enable them to be copied or retained as evidence;

(e) have access to, inspect and check the operation of, any computer and any associated apparatus or material which is or has been in use in connection with the documents or records;

(f) take a photograph of, or record in digital form, anything on the premises;

(g) remove anything reasonably believed to be evidence of any non-compliance.

(2) An authorised person who enters any land or premises under a power under other legislation may exercise any of the powers specified in this regulation for the purposes of enforcing these Regulations.

(3) Paragraph (1) applies in relation to a person referred to in regulation 7(7)(b) when such person is acting under the instructions of an authorised person, as if such person were an authorised person.

Diwygio Rheoliadau Cynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin nad ydynt yn rhai IACS (Apelau) (Cymru) 2004

9.—(1) Mae Rheoliadau Cynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin nad ydynt yn rhai IACS (Apelau) (Cymru) 2004(**1**) wedi eu diwygio yn unol â pharagraff (2).

(2) Yn y tabl yn yr Atodlen (Cynlluniau y caiff Cynulliad Cenedlaethol Cymru sefydlu gweithdrefn apelau ar eu cyfer), yn lle "(EC) Rhif 1255/1999 ar gyd-drefniadaeth y farchnad mewn llaeth a chynhyrchion llaeth (Erthygl 14) fel ei ddiwygiwyd ddiwethaf gan (EC) Rhif 1787/2003" rhodder—

"Rheoliad (EU) Rhif 1308/2013 sy'n sefydlu cyd-drefniadaeth y marchnadoedd mewn cynhyrchion amaethyddol (Erthygl 23) fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EU) 2016/791".

Dirymiadau

10. Mae'r Rheoliadau a ganlyn wedi eu dirymu—

(a) Rheoliadau Llaeth Ysgol (Cymru) 2008(**2**);

(b) Rheoliadau Llaeth Ysgol (Cymru) (Diwygio) 2009(**3**).

Amendment to the Common Agricultural Policy Non-IACS Support Schemes (Appeals) (Wales) Regulations 2004

9.—(1) The Common Agricultural Policy Non-IACS Support Schemes (Appeals) (Wales) Regulations 2004(**1**) are amended in accordance with paragraph (2).

(2) In the table in the Schedule (Schemes in respect of which the National Assembly for Wales may establish an appeals procedure) for "(EC) No. 1255/1999 on the common organisation of the market in milk and milk products (Article 14) as last amended by (EC) No.1787/2003" substitute—

"Regulation (EU) No 1308/2013 establishing a common organisation of the markets in agricultural products (Article 23) as last amended by Regulation (EU) 2016/791".

Revocations

10. The following Regulations are revoked—

(a) the School Milk (Wales) Regulations 2008(**2**);

(b) the School Milk (Wales) (Amendment) Regulations 2009(**3**).

Kirsty Williams

Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, un o Weinidogion Cymru

2 Gorffennaf 2017

Cabinet Secretary for Education, one of the Welsh Ministers

2 July 2017

©ⓗHawlfraint y Goron 2017

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2017

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

(**1**) O.S. 2004/685 (Cy. 73).
(**2**) O.S. 2008/2141 (Cy. 190).
(**3**) O.S. 2009/108 (Cy. 21).

(**1**) S.I. 2004/685 (W. 73).
(**2**) S.I. 2008/2141 (W. 190).
(**3**) S.I. 2009/108 (W. 21).

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2017 Rhif 724 (Cy. 174)

2017 No. 724 (W. 174)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

AGRICULTURE, WALES

Rheoliadau Llaeth Ysgol (Cymru) 2017

The School Milk (Wales) Regulations 2017

£6.00

W201707053 07/2017

http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2017/724

ISBN 978-0-348-20131-4

9 780348 201314